/Ebrill 2008
Cylchlythyr Chwarterol
Eglwys Bresbyteraidd Cymru

www.ebcpcw.org.uk

Rhwyd-waith rhifyn 02

COFLEIDIO AMRYWIAETH – DATHLU FFYDD

Mae'r Parchedig Vaughan Rees yn wynebu problem yn fuan wedi i ni gyfarfod. Mae anhawster technegol yn effeithio'r digwyddiad Coffâu'r Holocost yn Undeb y Myfyrwyr, felly rydym yn brysio draw er mwyn iddo allu datrys y broblem a dangos y campws i mi ar yr un pryd.

Mae Vaughan yn Gaplan Prifysgol Morgannwg ers 2004, swydd a noddir gan y Brifysgol ac Eglwys Bresbyteraidd Cymru, ymysg eraill. Dim ond rhan o waith tîm y Gaplandiaeth yw helpu i drefnu digwyddiadau amserol fel Diwrnod Coffa'r Holocost.

Wrth i ni gerdded o amgylch y campws yn Nhrefforest, eglura Vaughan bod y Gaplaniaeth yn cynnal gwasanaethau rheolaidd fel y Cymun Sanctaidd a chyfarfodydd gweddi, yn ogystal â digwyddiadau fel y cinio 'Chewsday' wythnosol ar gyfer myfyrwyr a thrigolion y fro.

Mae gofal bugeiliol hefyd yn flaenoriaeth, er bod yr amser sy'n cael ei dreulio ar les myfyrwyr yn amrywio. "Mae'r tymor cyntaf wastad yn eitha' trwm, a'r cyfnod arholiadau hefyd! Ond 'dy ni'n cynnig rhywbeth gwahanol i'r cwnselwyr yn y Ganolfan Gefnogi Myfyrwyr gan ein bod yn annibynnol oddi wrth y brifysgol ei hun."

Felly faint o bobl sy'n defnyddio gwasanaethau'r Gaplaniaeth?

"Dy ni ddim yn mesur llwyddiant yn ôl niferoedd yn unig" eglura Vaughan. "Dy ni'n trio sicrhau ein bod yn rhan gyfarwydd o'r sîn, fel bo pobl yn gwybod ein bod ni yma – waeth os ydyn nhw'n ein defnyddio ai peidio. Meddylia am blentyn yn gorwedd yn y gwely ac yn clywed ei fam yn smwddio lawr staer – mae'n gysur gwybod ei bod hi yno."

Mae defnyddio technoleg fodern yn sicr yn fodd o greu'r fath presenoldeb. Mae blog a gwefan y Caplandy yn cael eu diweddaru yn gyson, ac mae'r staff hefyd yn defnyddio Facebook i gysylltu â myfyrwyr.

"Pob ffydd a dim ffydd"

Mae'r geiriau "Pob ffydd a dim ffydd" yn allweddol. Fel y dywed Vaughan, "does dim rhaid bod yn grefyddol i ddefnyddio'r Gaplaniaeth." Yn wir, mae'r Gaplaniaeth yn darparu ar gyfer pob ffydd: "Dy ni'n sicrhau, er enghraifft, bod cyfleusterau gweddïo addas ar gyfer myfyrwyr Moslemaidd". Mae'r staff hefyd yn cynnal gwefan Glam Faith Wales (www.glamfaith.org), sy'n hybu deialog rhyng-ffydd ac yn helpu pobl i ganfod cyfleoedd i ymarfer eu ffydd.

Yn ôl Vaughan, nid yw'r parodrwydd yma i ymwneud â chrefyddau eraill yn anghyson ag ymrwymiad Cristnogol. Mae'n fater o ganfod a dangos beth ydi "Crist" yn sefyllfa aml-ddiwylliannol y Brifysgol. Fel y dywed Vaughan, "dy ni'n trio creu dinasyddion gwell ar gyfer y dyfodol drwy ddysgu myfyrwyr i barchu eraill."

// Mae'r Gaplaniaeth yn CEFNOGI 25,000 o fyfyrwyr. Dim ond traean ohonynt sy'n 18-21 mlwydd oed: nid gwasanaeth ieuenctid yn unig mo'r Gaplaniaeth!

// Mae'r Gaplaniaeth YN FALCH o arwain ymgyrch y Brifysgol i ennill statws Masnach Deg.

//Mae Tîm Caplaniaeth Prifysgol Morgannwg, gyda'r Parchedig Vaughan Rees yn y canol, i'w weld yn y llun uchod

SIERRA LEONE: GWNEUD GWAHANIAETH

Yn Hydref 2007, cafodd pedwar ohonom – Shauna, Meredyth, Cai a fi – wahoddiad gan Gymorth Cristnogol i deithio i Sierra Leone i weithio gyda phobl ifanc sy'n addysgu eu cyfoedion am HIV. Roeddem wedi bod yn cyd-weithio gyda Cymorth Cristnogol ers dros flwyddyn, ac wedi cael ein hyfforddi i redeg gweithdai yng Nghymru am HIV. Buom yn casglu arian ac yn paratoi am 4 mis cyn hedfan i Sierra Leone yn ystod hanner tymor Chwefror 2008 gyda Branwen Niclas a Jeff Williams o Gymorth Cristnogol.

Tra roedden ni yno mi dreulion ni amser gyda nifer o bartneriaid Cymorth Cristnogol (mudiadau o bobl leol) yn Kenema, Bo a Freetown. Redden ni'n brysur o fore gwyn tan nos, yn dysgu gyda'r bobl ifanc lleol. Mi wnaethon ni ymweld ag ysgolion, canolfannau, a gwneud gweithdai ac 'outreach' am HIV mewn gemau pêl-droed, yn y farchnad a mewn clwb nos. Mi wnaethon ni hefyd recordio CD am HIV gyda criw 'Youth Against AIDS' yn Kenema. Roedd y stiwdio lle buom yn recordio yn elfennol iawn ond mi gawson ni andros o hwyl, a rwy'n edrych ymlaen i bobl adref i glywed y CD. Byddwn hefyd yn ei ddefnyddio mewn gweithdai i godi ymwybyddiaeth am HIV.

Cawsom y cyfle hefyd i gyfarfod pobl oedd yn HIV+ ac yn byw yn bositif hefo'r feirws. Fe wnaeth hyn fy ysbrydoli i'n fawr iawn, gan ddangos imi bod gobaith er gwaethaf yr holl stigma a rhagfarn yn erbyn pobl sy'n byw hefo HIV. Roedd llawer o'r merched wedi cael profiadau ofnadwy –cael eu cicio allan o'u cartrefi, cael eu taro gan eu gwyr a'u gorfodi i adael eu pentrefi oherwydd eu bod yn HIV+. Yng nghanolfan Eglwys Fethodistaidd Sierra Leone yn Freetown mae pobl sy'n HIV+ yn gallu dod at ei gilydd i rannu profiadau a chefnogi ei gilydd. Dyma'r unig le mae rhai pobl yn gallu bod yn agored am eu statws. Mae pobl hefyd yn derbyn cyngor yno ar sut i fyw'n iach gyda'r feirws, derbyn help gan y nyrs, a chael hyfforddiant ar sgiliau gwahanol.

Dwi'n gobeithio y bydd sefyllfa tlodi Sierra Leone yn gwella – hon yw gwlad dlotaf y byd yn ôl y Cenhedloedd Unedig. Gallwch wneud gwahaniaeth i fywydau pobl yn Sierra Leone drwy gefnogi Cymorth Cristnogol. Mi rydan ni wedi gweld y gwaith a'r gwahaniaeth efo'n llygaid ein hunain. Wrth ffarwelio gyda'n ffrindiau newydd yn Kenema roedd partneriaid Cymorth Cristnogol, NMJD (Network Movement for Development and Justice) wedi cyfansoddi cân newydd – "NMJD and Christian Aid - We are One Big Family" sy'n dangos mai un byd ac un teulu ydan ni. Diolch i bawb am eu cefnogaeth i Gymorth Cristnogol ac i deulu'r byd.

Catherine Peake, 14

I wylio ffilm fer ar y daith ewch i www.cymorthcristnogol.org

// Mae llun o Catherine (ail o'r chwith) gyda merched Youth Against AIDS i'w weld uchod.

// Er mwyn dathlu codi dros £200,000 ar gyfer apêl Sierra Leone Cymorth Cristnogol, bydd Eglwys Bresbyteraidd Cymru yn cynnal noson Jazz a Lasagne yn cael ei chynnal ar 18 Ebrill yng Nghanolfan y Morlan, Aberystwyth. Am fwy o fanylion a thocynnau, ffoniwch 02920 627465 neu ewch i www.ebcpcw.org.uk

GUTO DAFYDD

Let aeroplanes circle moaning overhead,
Scribbling on the sky the message:
He Is Dead.

Dyna'r unig eiriau o gerdd y gallwn i feddwl amdanyn nhw y bore hwnnw y clywais am farwolaeth Siôn Ifan Evans – geiriau sy'n dweud mor anodd ydi cyfleu galar, ac sy'n erfyn hefyd am ryw fath o gadarnhad allanol o'r farwolaeth erchyll a fu.

Ar lan-môr Trefor y bore hwnnw, fy ffigwr i'n ysgwyd crio oedd yr unig beth a dorrai ar y pryderthwch – y fath lesni, y fath lonyddwch. Ro'n i'n flin ei bod hi mor braf, ac yn ysu am i natur ddangos peth o'r hylltra wnaeth achosi marwolaeth fy ffrind y noson cynt.

Siôn – yr un na feddyliais yn ddrwg amdano erioed, yr un oedd wastad yno'n gefn ac yn gysur. Hwnnw oedd y Siôn na siaradwn i efo fo byth eto, Siôn na flaswn ei baned na chael ei gwmni tra byddwn i. Sylweddoli hynny ydi'r peth anoddaf i mi erioed ei wneud.

Roedd y tywydd yn afiach yn y Bala ar y diwrnod pan ddaethon ni ynghyd i gofio a diolch am Siôn. Ond y tro hwn roedd hynny'n fy ngwylltio i, am fod llawenydd bellach wedi cuddio'r galar. Llawenydd am gael nabod Siôn: byddai'n hawdd sgwennu atgofion melys amdano, ond dwi'n gwirioneddol gredu nad yn ôl ei weithredoedd yr adnabyddir rhywun, ond yn ôl ei holl natur a'i gymeriad. A Siôn oedd y dyn cynhesaf, yr anwylaf, a'r mwyaf jeniwin gwnes i ei adnabod erioed.

Dwi ddim yn hoffi meddwl am fywyd Siôn fel un gafodd ei dorri cyn-pryd; i mi mae o'n fywyd cyflawn. Beth ydi pwynt meddwl amdano fo yn nhermau'r hyn oedd eto i'w gyflawni?

A llawenydd hefyd ynghlwm â sylweddoli mai ar ein cyfer ni'n hunain yn unig yr oedd ein holl ddagrau. Achos fel Cristnogion dydi marwolaeth ddim yn golled, ond yn fuddugoliaeth. 'Dan ni'n credu bod Iesu Grist wedi marw ar y groes fel nad ydan ni'n gorfod marw, ond ein bod ni'n cael bywyd am byth yn y nefoedd. Ac mae'n rhaid sylweddoli mai ar adegau fel hyn rydan ni'n gweld pethau allweddol ein ffydd ni'n dod yn real.

Mae 'na emyn sy'n sôn am Gristnogion fel pobol sy'n chwerthin ar y bedd – ac wrth i ni chwerthin wrth gofio am Siôn fe gawn ni chwerthin hefyd ar ben marwolaeth, sydd heb drechu dim byd.

Roedd Siôn Ifan Evans yn weithiwr ieuenctid yng Ngholeg y Bala. Fe'i lladdwyd mewn damwain yn y coleg ym mis Chwefror.

Mwynhau'r cystadlu yn Eisteddfod Glyn Ebwy

EISTEDDFOD EBWY

Pe bai dyn o'r gofod yn gwylio rhai o dathliadau dydd Gŵyl Ddewi 2008, prin y byddai wedi deall bod Dewi yn Gristion.

Ond yng Nglyn Ebwy, cafwyd dathliad oedd yn Gymreig ac yn Gristnogol.

A chyda Mawrth 1 ar ddydd Sadwrn, pa well ffordd i ddathlu na thrwy gynnal Eisteddfod – gyda'r holl gystadleuwyr mewn gwisg ffansi Gymreig?

Daeth llu o hen fenywod Cymreig a chwaraewyr rygbi'r dyfodol i gapel Mount Pleasant ar gyfer prynhawn o addoli a chystadlu – gyda thê parti i orffen.

Arweinwyd yr addoliad gan y Parchedigion Diane Notley, trefnydd y dathliad, a John Colney, gweinidog Mount Pleasant. Cawsant gymorth gan blant ysgolion Sul de-ddwyrain Cymru ac hefyd gan griw o bypedau.

"Dyma'r tro cyntaf i ni gael dathliad fel hwn" meddai'r Barchg Notley, "ond mae'r plant yn amlwg yn mwynhau!".

Yn ôl y traddodiad, roedd cystadlaethau llwyfan a gwaith cartref ar gyfer pob oed. Roedd agwedd Gristnogol dydd ein nawddsant yn amlwg wrth i unigolion a grwpiau gystadlu ar ganu emynau. Ac roedd y thema Gymraeg i'w gweld yn glir yn y cystadlaethau gwaith cartref, gyda lluniau o ddreigiau, cacennau cri a barddoniaeth yn cael eu beirniadu gan 'arbenigwyr' o blith y gynulleidfa.

Bydd aelodau Ysgolion Sul yr ardal yn edrych ymlaen yn eiddgar at ddathliadau 2009, ac mae Rhwydwaith yn edrych ymlaen at ymweld â dathliadau mewn rhannau eraill o Gymru y flwyddyn nesaf!

BETH ALLA'I EI WNEUD?

Mae'r materion yma yn ein heffeithio i gyd – gallwn helpu i newid pethau!

Ydym ni Gristnogion yn cymryd gofal o Greadigaeth Duw? Mae Llywodraeth Prydain wrthi'n cynnal ymgynghoriad cyhoeddus ar **Fesur Newid yr Hinsawdd**. Bydd y mesur hwn yn creu fframwaith newydd ar gyfer delio gyda newid hinsawdd, ac mae hyn i'w groesawu. Ond mae amryw o elusennau ac eglwysi, gan gynnwys Eglwys Bresbyteraidd Cymru, yn dadlau nad yw'r mesur yn mynd yn ddigon pell. Felly beth am **drafod** y mater fel eglwys neu henaduriaeth a **chysylltu** gyda'ch Aelod Senedol er mwyn mynegi'ch barn?

Mae Cristnogion sy'n byw mewn rhai gwledydd yn cael eu herlid. Gogledd Korea, Iran, India, Nigeria, Israel, Pacistan, Sudan, Tseina, Saudi Arabia, yr Aifft – mae'r rhestr yn faith. Mae **Cronfa Barnabas**, sy'n cynnig gobaith a chymorth i'r erlidedig, yn erfyn ar Gristnogion i **weddïo** dros eu gwaith. Gallwch hefyd **gyfrannu** i'r achos neu **godi ymwybyddiaeth** yn eich capel ac ymysg eich teulu a'ch ffrindiau. Cysylltwch â ni am fwy o fanylion, neu ewch i www.barnabasfund.org.

Sut hoffech chi weld eich ardal yn datblygu? Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi lansio dogfen **Cynllun Gofodol Cymru**: Pobl, Lleoedd, Dyfodol, sy'n amlinellu gweledigaeth ar gyfer datblygiad pob rhan o Gymru yn ystod yr 20 mlynedd nesaf. Bydd hefyd yn llywio gwariant y Llywodraeth yn ystod y blynyddoedd nesaf. Gallwch **fynegi barn** ar y ddogfen hyd at 24 Ebrill. Am fwy o fanylion, ffoniwch 02920 823802 neu gyrrwch e-bost i WSP@wales.gsi.gov.uk.

MEWN UNDOD MAE NERTH?

Mae uno capeli yn bwnc llosg mewn sawl ardal. Ond beth sy'n digwydd ar ôl i gynulleidfaoedd ddod at ei gilydd o dan yr un to?

Mae amryw o gapeli unedig yng Ngwynedd, felly aeth Rhwydwaith yno i holi.

"Tasa ni wedi cario 'mlaen fel roeddan ni, mi fasa ni wedi mynd lawr a lawr" yw geiriau Ieuan Roberts, blaenor yng Nghapel y Porth, Porthmadog, wrth gyfeirio at sefyllfa Capel Tabernacl a Chapel y Garth ychydig dros ddegawd yn ôl.

"Roedd na dipyn o wrthwynebiad ar y cychwyn, ac aeth y bleidlais gyntaf yn erbyn y syniad o uno."

Ond uno a fu, ac aelodau Capel y Porth bellach yn addoli mewn adeilad newydd braf.

"Mi oeddwn i'n ofni y baswn i'n gweld isio'r hen adeilad" meddai Mr Roberts "ond mae na awyrgylch hyfryd yma."

Eglura bod yr Ysgol Sul yn gryfach hefyd. "Mae 'na tua 50 o blant yn yr Ysgol Sul. Wedi'r uno roeddan nhw'n fwy parod i ddod gan bod eu ffrindiau o'r capel arall yno hefyd!"

"Mae popeth ar i fyny yma. Rydan ni'n ffodus dros ben."

Ond mae'r Barchg Gwenda Richards, gweinidog Capel Seilo, Caernarfon, yn cydnabod y gall uno fod yn anodd.

Ni sefydlwyd capel newydd sbon yng Nghaernarfon, ond yn hytrach, daeth aelodau pedwar o gapeli bychain eraill i raddol addoli yn Seilo.

"Doedd hi ddim yn broses hawdd" meddai'r Barchg Richards, "gan mai o angenrhaid y daeth capeli eraill at Seilo. Ond rwan mae 'na rhwng 150 a 300 yma ar fore Sul, a dros 50 o blant yn yr Ysgol Sul. Ac mae gennym ni gymdeithas lenyddiaeth, dwy gymdeithas chwiorydd, clwb cerdded, seiat – a phasiant blynyddol hefyd."

Ac mae'n amlwg bod yna fywyd a bywiogrwydd ym Mhwllheli – fel yn y capeli eraill unedig. Mewn undod mae nerth?

MC AM BYTH?

Mae'n rhyfedd, ond yr un rheswm sydd yna dros uno capeli, ag sydd yna dros wneud pob peth posib i'w cadw nhw'n unedau gweigion ar wahân. A'r rheswm hwnnw ydi pobol.

Ar y naill law, mae ganddoch chi'r ddadl gomon sens. Mae pawb sy'n fodlon bod yn onest efo fo'i hun yn gwybod fod uno cynulleidfaoedd mewn un adeilad o faint addas ac o gynhesrwydd a rhyw ychydig o foethusrwydd, yn gwneud synnwyr; yn enwedig pan mae yna fwy nag un capel yn perthyn i'r un enwad yn yr un pentref. Dyna oedd y sefyllfa ym Mhen-y-groes, Arfon, ddeng mlynedd yn ôl. Ers 2003, mae aelodau'r hen gapeli Bethel a Saron yn cyfarfod ar y Suliau yn adeilad newydd sbon Capel y Groes.

O fynd â'r ddadl gomon sens un cam ymhellach, mi fyddai'n hollol rhesymegol dadlau y dylai aelodau holl gapeli unrhyw bentref ddod at ei gilydd, waeth beth ydi'r enwadau. Uno pobol sy'n bwysig, ac onid ydi pobol pentrefi fel Pen-y-groes – yn Bresbyteriaid, yn Annibynnwyr ac yn Fedyddwyr ac Eglwyswyr – yn troi trwy'i gilydd wrth gynnal pob peth arall yn yr ardal? Dyna i chi'r Sioe Flodau, y Cylch Llenyddol, y Gymdeithas Hanes, y Ffermwyr Ifanc, Gwyl Fai, tim ffwtbol neu glwb rygbi, papur bro, neu'r Cyngor Cymuned...ond eto, ar y Suliau, pawb i'w focs enwadol, fesul dyrnaid, ydi hi.

A dyma lle down ni at ddadl y galon. Yng nghanol y sentimentaleiddwch yna y mae poen y pwynt. Oherwydd nid cadw llefydd i fynd tra byddwn ni, ydi ein gwaith ni. Nid canmol y gorffennol ydi'r dasg chwaith. Y job ydi cadw'r Efengyl yn fyw, ei byw hi yn y ffordd ydan ni'n ymwneud efo pobol eraill.

Hetiau caled os gwelwch yn dda! Mr Huw Tudor a'r Parchedig W Bryn Williams ar safle Penmount

Karen Owen

Gwta bedair milltir i ffwrdd, mae aelodau Bethel a Chroesywaun, y Waunfawr, wedi dangos beth sy'n bosibl heb arweiniad gweinidog. Mae'r ddwy gynulleidfa wedi uno o dan enw Capel y Waun, ac yn addoli yn hen adeilad Croesywaun, wedi defnyddio'r arian o werthiant Bethel i'w adnewyddu.

A beth am Bwllheli – un o drefi mwyaf Presbyteraidd Cymru? Mae capeli mawr Salem a Penmount wedi uno ers dros ddegawd bellach, ond bydd coron ar y cwbl pan fydd Capel Penmount yn ail-agor yn yr haf, wedi misoedd o waith adfer a datblygu.

"Mi wnaethom ni ddefnyddio adeilad Salem hefyd ar y dechrau," meddai Huw Tudor, y blaenor sy'n cadw llygad ar y gwaith adeiladu. "Ond roedd hi'n anodd cludo popeth o un adeilad i'r llall, ac roedd cyflwr Salem yn dirywio."

"Mae hi wedi bod yn broses hir – ond roedd penderfynu uno yn hawdd o'i gymharu â'r broses o gael nawdd!"

"Fuon ni'n trio am flynyddoedd cyn llwyddo i gael grant o £100,000 gan CADW." Mae'r arian yn cael ei ddefnyddio i adfer y capel a'r ddwy festri, ac hefyd i adeiladu ystafell ddistaw a chyfleusterau newydd.

Yn ogystal â chanolfan newydd Penmount, mae gweinidog newydd ym Mhwllheli. Ac mae'r Parchg Bryn Williams yn amlwg yn awchu am gael gweld Penmount ar ei newydd wedd.

"Wedi'r holl egni ac amser gafodd ei dreulio ar yr uniad, dwi'n falch 'mod i wedi cael galwad pryd 'nes i" meddai. "Gobeithio y galla'i finiogi meddylia' yn y dre' 'ma wedi'r holl waith."

Pan fydda' i'n meddwl am fy hen hen daid, Owen Jones, a gollodd ei ddwy goes mewn ffrwydriad yng ngwaith gwenithfaen Trefor, yn mynnu cael ei bowlio mewn berfa i safle Capel Gosen yn y pentref er mwyn iddo fo drin y cerrig yn ystod gwaith adeiladu'r capel hwnnw, dw i'n sylweddoli dau beth. Yn gyntaf, roedd codi achos y Presbyteriaid yn Nhrefor yn golygu popeth iddo fo. Yn ail, gwenithfaen oedd deunydd crai naturiol ei ardal a'i oes o.

Erbyn heddiw, dydan ni ddim yn codi adeiladau efo carreg mor galed ac mor ymbelydrol â gwenithfaen. Ond, dydi hynny ddim yn golygu nad oes ganddo ni, bob un, ein crefftau, ac y dylien ni eu defnyddio nhw yn greadigol er mwyn rhannu neges yr Efengyl i'n hoes ni, yn ei hiaith hi. Ac mae honno'n neges sy'n deillio o gomon sens ac o'r galon. Neges i bobol ydi hi. A phobol ydi eglwys, yn y bôn – nid bocs enwadol, di-deimlad.

Karen Owen

"WEDI'R HOLL EGNI AC AMSER GAFODD EI DREULIO AR YR UNIAD, DWI'N FALCH 'MOD I WEDI CAEL GALWAD PRYD NES I"

Cytgan olaf Eisteddfod Glyn Ebwy

ADNABOD EICH GWEINIDOG

Mae gweinidogion Eglwys Bresbyteraidd Cymru wedi derbyn cardiau adnabod newydd.

Mae hyn yn dilyn awgrym gan y Barchedig Eirlys Gruffydd o Wrecsam, wedi iddi gael trafferth profi ei bod yn weinidog wrth geisio ymweld â chleifion mewn ysbyty.

“Mae’n syniad rhagorol er mwyn hwyluso fy ngwaith” meddai’r Parchg Wyn Morris, Aberystwyth.

Mewn oes lle mae mwy a mwy o ymosodiadau ar weinidogion sy’n gwisgo coler, dylai’r cardiau helpu gweinidogion i wneud eu gwaith yn ddiogel ac yn ddi-helbul.

CYFRANIAD I GYMRU: £102m

Mae grwpiau crefyddol yn cyfrannu gwerth mwy na £100 miliwn i economi Cymru.

Yn ôl adroddiad o’r enw “Ffydd yng Nghymru: Yn Cyfrif i’n Cymunedau”, mae Cristnogion Cymru yn gwneud gwaith gwirfoddol gwerthfawr dros ben yn eu cymunedau. Mae’r adroddiad yn amcangyfrif bod:

// Presbyteriaid Cymru yn treulio 9,000 awr yr wythnos yn gwirfoddoli.

// 46 y cant o’r gwirfoddolwŷr yn gwneud hynny gyda phlant neu bobl ifanc.

// Yr Eglwys Bresbyteraidd yn derbyn 67,500 o dwristiaid yn flynyddol, yn bennaf oherwydd ei hadeiladau hanesyddol.

// Presbyteriaid a’r Annibynwyr yn dueddol o gyflenwi niferoedd uwch o wirfoddolwyr, tua 50% yn fwy na’r cyfartaledd i bob enwad Cristnogol arall (o’u cymharu â maint y gynulleidfa).

“Bydd pobl wedi eu synnu o weld faint o waith sy’n cael ei wneud” meddai Dr Brian Gibbons AC, y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol. “Maent yn meddwl am Brydain fel cymdeithas seciwlar. Ond bydd yr adroddiad hwn yn helpu i gael gwared o’r ystrydeb negyddol hon.”

CLWB 12 YN WRECSAM

Chwilio am weithgareddau newydd ar gyfer eich clwb ieuenctid? Beth am holi aelodau ac arweinwyr Clwb 12, Capel y Groes, Wrecsam!

Dros y misoedd diwethaf mae’r plant wedi mwynhau...dartiau, karate, Connect 4 enfawr, gwneud cardiau Nadolig, pantomeim, gwneud flapjacs Masnach Deg, canu caneuon y Spice Girls wrth ddysgu am y Bregeth ar y Mynydd – sôn am brysur!

Mae’r hanes yn llawn ar y wefan, neu gallwch ffonio 02920 627465 am fanylion cyswllt y criw yn Wrecsam.

270 MLWYDD OED!

Bu parti penblwydd mawreddog yn Llanfairpwll ym mis Chwefror, wrth i dri o aelodau Rhos-y-Gad aelodau ddathlu penblwyddi arbennig.

Roedd Mrs Grace Roberts yn dathlu ei phenblwydd yn 90 oed ac wedyn Mr Bleddyn Williams yn dathlu ei 80. Ac yn goron ar y cyfan, roedd Mrs Rhiannon Jones yn dathlu ei phenblwydd yn 100 oed – cyfanswm o 270 o flynyddoedd!

DYDDIADUR

Ebrill

12	Diwrnod Adnoddau, Bwcle
16	Richard Harries, cyn-esgob Rhydychen, Aberystwyth
18	Jazz a Lasagne, Aberystwyth
29-30	Y Gymdeithasfa yn y Dwyrain

Mai

6-7	Y Gymdeithasfa yn y De
13-14	Y Gymdeithasfa yn y Gogledd
11	Pentecost
18	Sul y Drindod
26-30	Eisteddfod yr Urdd, Sir Conwy

Mehefin

6-8	Wigwam (Penwythnos Teuluol), Coleg y Bala
19	Hyfforddiant i weinidogion, Coleg y Bala

Am fwy o wybodaeth, ewch i www.ebcpcw.org.uk neu ffoniwch 02920 627465

SYLWADAU? NEWYDDION? HYSBYSEBION?

Rhowch wybod!

Eglwys Bresbyteraidd Cymru, 81 Heol Merthyr, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd, CF14 1DD

02920 627465
swyddfa.office@ebcpcw.org.uk

LLWYBR LLEFYDD BEIBLAIDD

A	B	F	A	I	M	H	E	A	G	A
I	E	F	G	R	A	T	E	L	I	L
R	T	H	E	A	N	J	A	W	S	A
A	M	A	N	A	I	E	R	I	E	L
R	A	S	A	N	E	T	L	E	M	B
S	E	L	C	A	G	H	E	H	T	E
I	E	R	A	M	E	S	D	E	N	B
M	A	M	N	E	A	S	A	N	L	A
M	U	C	O	J	R	O	C	H	E	B
N	A	A	C	E	E	C	R	O	M	M
R	E	P	I	R	T	H	S	O	D	O

Gan ddechrau gyda’r ‘G’ yn y canol, symudwch un lythyren ar y tro (i fyny, lawr i’r chwith neu i’r dde ond nid yn lletraws) i ganfod enwau 17 o lefydd Beiblaidd. Dylech orffen ar ‘H’.

Rhifyn 01: enillydd yr wy Pasg oedd R G Randall o Wrecsam. Llongyfarchiadau!